

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a	Fay Bowen
fideo gynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: 6 Tachwedd 2024	0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddCCGG@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.00 – 09.15)

Cyfarfod cyhoeddus (09.15 – 11.05)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.15)
- 2 Papurau i'w nodi**
(09.15)
 - 2.1 Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i'r Cadeirydd ynghylch cerbydau trydan a gaffaelir gan Lywodraeth Cymru**
(Tudalennau 1 – 2)
 - 2.2 Llythyr gan Gyngor Tref Aberystwyth at Bwyllgorau'r Senedd ynghylch y fformiwla ariannu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru**
(Tudalennau 3 – 6)
 - 2.3 Llythyr gan y Cadeirydd at Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru – cwestiynau dilynol yn deillio o'r sesiwn dystiolaeth ar 19 Medi 2024**
(Tudalennau 7 – 8)
 - 2.4 Ymateb gan Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth – Llywodraeth Cymru i'r Cadeirydd ynghylch cwestiynau dilynol yn deillio o'r sesiwn dystiolaeth ar 19 Medi 2024**
(Tudalennau 9 – 12)



2.5 Llythyr gan y Cadeirydd at David Richards OBE, Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg, Llywodraeth Cymru, ynghylch Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion

(Tudalennau 13 – 14)

2.6 Ymateb gan David Richards OBE, Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg – Llywodraeth Cymru i'r Cadeirydd ynghylch Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion

(Tudalennau 15 – 17)

Egwyl (09.30 – 09.35)

3 Sesiwn dystiolaeth – Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

(09.35 – 11.05)

(Tudalennau 18 – 43)

Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru

Ruth Meadows, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol – Llywodraeth Cymru

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio – Llywodraeth Cymru

Amelia John, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Briff ymchwil

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.05)

5 Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru: trafod y dystiolaeth

(11.05–11.20)

6 Craffu ar Gyfrifon: Comisiwn y Senedd 2022 – 23: trafod yr adroddiad drafft

(11.20 – 11.40)

(Tudalennau 44 – 86)

Papur 1 – adroddiad drafft

- 7 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: trafod yr adroddiad drafft**
(11.40 – 12.00) (Tudalennau 87 – 124)
Papur 2 – adroddiad drafft
- 8 Y Fenter Twyll Genedlaethol: trafod adroddiad Archwilio Cymru**
(12.00 – 12.20) (Tudalennau 125 – 151)
Papur 3 – adroddiad Archwilio Cymru
- 9 Ymateb gan David Richards OBE, Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg – Llywodraeth Cymru i'r Cadeirydd ynghylch Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion: trafod yr ymateb**
(12.20 – 12.30)

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2024

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi 2024 am y fframwaith cydweithredol ar gyfer caffael cerbydau trydan.

Rydych chi'n cyfeirio at Nodyn Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru 07/21 sy'n hyrwyddo trefniadau caffael o fewn sector cyhoeddus Cymru sy'n helpu busnesau bach a chanolig. Mae WPPN 07/21 yn nodi na ddylai sector cyhoeddus Cymru yn eu gweithgareddau caffael ofyn am gael gweld mwy na dwy flynedd o gyfrifon wedi'u harchwilio, a dylent fod yn barod i dderbyn gwybodaeth arall gan fusnesau mwy newydd. Bydd hyn yn adlewyrchu canllawiau a pholisi caffael Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn arfer caffael safonol ar draws y sector cyhoeddus. Mae PPN 03/24 Llywodraeth y DU yn darparu canllawiau statudol ar yr Holiadur Dethol Safonol (SQ) sy'n sail i holl brosesau caffael Llywodraeth Cymru i brofi a yw ceisydd yn addas i ymgymryd â chontract. O fewn PPN 03/24, y prawf safonol i brofi cryfder economaidd ac ariannol bidiwr yw'r gofyn am dystiolaeth dwy flynedd o gyfrifon neu wybodaeth arall os nad oes ganddo gyfrifon.

Mae PPN 03/24 hefyd yn nodi'r meini prawf gwahardd gorfodol a dewisol y gofynnir i fidwyr eu bodloni pan fydd awdurdodau sy'n caffael yn dilyn eu prosesau diwydrwydd dyladwy ac yn cloriannu a yw bidwyr yn gymwys. Rhaid i fidwyr ymateb i'r meini prawf gorfodol a dewisol hyn ar ran eu sefydliad a'i holl bersonau ac endidau perthnasol, yn unol â rheoliad 57(2) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (PCR) 2015. Mae hyn yn sicrhau bod cyfarwyddwyr ac aelodau o fyrddau gweithredol cwmnïau yn cael eu hadolygu yn ogystal ag unrhyw endidau neu bersonau sydd â phwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli yn y cyflenwr. Er nad oes rhaid i fidiwr roi rhestr ddiffiniadol o endidau neu bersonau y mae ei ddatganiadau yn eu cynnwys, rhaid iddo sicrhau bod ei ddatganiadau yn eirwir mewn perthynas â phawb sy'n dod o dan y rheoliad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 1
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r meini prawf gorfodol a dewisol yn cwmpasu ystod o ffactorau ariannol a ddefnyddir wrth ystyried y sefydliad sy'n bidio a'i bersonau ac endidau perthnasol. Maen nhw'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, methdaliad neu ansolfedd; talu trethi; euogfarnau am droseddau ariannol; a pherfformiad trwy gontract yn y gorffennol. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y broses hon mewn perthynas â phob caffaeliad dros £25k.

Yn y dyfodol, bydd Deddf Caffael 2023 yn dod i rym ar 24 Chwefror 2025 a bydd hynny'n newid y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn caffael. Mae'r Ddeddf yn creu trefn wahardd newydd i roi cyflenwyr ar restr gyhoeddus o ragwaharddiadau, y mae'n rhaid ei hystyried ar gyfer pob caffaeliad perthnasol. Mae'r broses waharddiadau'n effeithio ar y sefydliad bidio ac unrhyw bobl gysylltiedig. Mae'n profi a ydyn nhw'n addas i gael contractau o dan drefn gwahardd cyflenwyr sy'n ehangach na'r PCR cyfredol (2015).

Yn gywir,

A handwritten signature in dark ink, reading 'Mark Drakeford', written in a cursive style.

Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Annwyl Bwyllgorau'r Senedd,

Yn dilyn cynnig diweddar a basiwyd gan Gyngor Tref Aberystwyth, ysgrifennwn atoch fel Pwyllgorau perthnasol y Senedd ynghylch y fformiwla ar gyfer ariannu awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym yn nodi gyda phryder bod y fformiwla ariannu bresennol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu adnoddau ariannol i awdurdodau lleol yn effeithio'n anghymesur ar Sir Ceredigion a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r fformiwla, fel y mae, wedi arwain at ganran sylweddol is o gyllid ar gyfer ein sir, sy'n niweidiol i les economaidd, diwylliannol ac addysgol ein cymunedau.

Rydym yn nodi ymhellach:

- 1. Nodweddion demograffig a daearyddol unigryw Ceredigion, sy'n gofyn am fodel ariannu sy'n adlewyrchu'n ddigonol yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig a llai poblog.**
- 2. Yr effeithiau hirdymor posibl ar economi, diwylliant a system addysg Ceredigion os yw'r fformiwla ariannu bresennol yn parhau heb newid, gan gynnwys y risg o leihau gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith.**
- 3. Pwysigrwydd sicrhau bod Ceredigion yn derbyn cyfran deg o gyllid sy'n gymesur â'i hanghenion, gan ganiatáu i'r sir ffynnu a pharhau i gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel i'w thrigolion.**

Rydym felly'n ysgrifennu i ofyn ac erfyn am eich cymorth i eiriol dros newid yn y fformiwla ariannu a fydd o fudd i Geredigion.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb a'ch cefnogaeth.

.....

Dear Senedd Committees,

Further to a recent motion passed by Aberystwyth Town Council, we write to you as the relevant Senedd Committees regarding the formula for the funding of local authorities in Wales. We note with concern that the current funding formula used by the Welsh Government to allocate financial resources to local authorities is disproportionately affecting Ceredigion County & Ceredigion County Council. The formula, as it stands, has resulted in a significantly lower percentage of funding for our county, which is detrimental to the economic, cultural, and educational wellbeing of our communities.

We further note:

- 1. The unique demographic and geographic characteristics of Ceredigion, which require a funding model that adequately reflects the challenges faced by rural and less densely populated areas.**
- 2. The potential long-term impacts on Ceredigion's economy, culture, and education system if the current funding formula remains unchanged, including the risk of declining public services and infrastructure.**
- 3. The importance of ensuring that Ceredigion receives a fair share of funding that is commensurate with its needs, allowing the county to thrive and continue to offer high-quality services to its residents.**

We are therefore writing to seek and urge for your assistance in advocating for a change in the funding formula that will benefit Ceredigion.

We look forward to your response and support.

Will Rowlands

Clerc y Dref & Swyddog Ariannol Cyfrifol / Town Clerk & Responsible Financial Officer



Cyngor Tref Aberystwyth Town Council

Tŷ'r Offeiriad / The Presbytery

Neuadd Gwenfrewi

Morfa Mawr / Queen's Road

Aberystwyth

SY23 2HS

Cynnig i gefnogi ac annog ymdrechion lloio Cyngor Sir Ceredigion am Fformiwla Ariannu Decach gan y Senedd

Cynnigwyd gan: Cyng Kerry Ferguson

Dyddiad: 3^{ydd} Medi 2024

Cynnig:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi gyda phryder bod y fformiwla ariannu bresennol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu adnoddau ariannol i awdurdodau lleol yn effeithio'n anghymesur ar Sir Ceredigion a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r fformiwla, fel y mae, wedi arwain at ganran sylweddol is o gyllid ar gyfer ein sir, sy'n niweidiol i les economaidd, diwylliannol ac addysgol ein cymunedau.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymhellach:

- Nodweddion demograffig a daearyddol unigryw Ceredigion, sy'n gofyn am fodel ariannu sy'n adlewyrchu'n ddigonol yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig a llai poblog.
- Yr effeithiau hirdymor posibl ar economi, diwylliant a system addysg Ceredigion os yw'r fformiwla ariannu bresennol yn parhau heb newid, gan gynnwys y risg o leihau gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith.
- Pwysigrwydd sicrhau bod Ceredigion yn derbyn cyfran deg o gyllid sy'n gymesur â'i hanghenion, gan ganiatáu i'r sir ffynnu a pharhau i gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel i'w thrigolion.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

- Mynegwch ei gefnogaeth lawn i ymdrechion parhaus Cyngor Sir Ceredigion i lloio Llywodraeth Cymru am adolygiad ac adolygu'r fformiwla ariannu bresennol.
- Annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau ar unwaith i ymgysylltu â Chyngor Sir Ceredigion a rhanddeiliaid perthnasol eraill mewn deialog ystyrlon gyda'r nod o sefydlu model ariannu mwy teg.
- Annog cynghorau tref a chymuned eraill yng Ngheredigion i gefnogi ac ehangu'r alwad am ddyraniad cyllid tecach sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau ein sir yn well.
- Cais i Glerc y Dref ysgrifennu at weinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru, Aelodau Cynulliad lleol, ac Aelodau Seneddol, gan gyfleu safbwynt y Cyngor hwn a'u hannog i eirioli dros newid yn y fformiwla ariannu a fydd o fudd i Geredigion.
- Parhau i fonitro'r sefyllfa a chydweithio â Chyngor Sir Ceredigion i sicrhau bod buddiannau Aberystwyth a'r sir ehangach yn cael eu cynrychioli ym mhob trafodaeth ynghylch dyraniadau cyllid.

Canlyniad:

Bydd y cynnig hwn, os caiff ei basio, yn cael ei anfon ymlaen at Gyngor Sir Ceredigion, Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o ymrwymiad Cyngor Tref Aberystwyth i gefnogi sefydlogrwydd ariannol ein sir a ffyniant yn y dyfodol.

Motion to Support and Encourage Ceredigion County Council's Lobbying Efforts for a Fairer Funding Formula from the Welsh Government

Proposed by: Cllr Kerry Ferguson

Date: 3rd September 2024

Motion:

This Council notes with concern that the current funding formula used by the Welsh Government to allocate financial resources to local authorities is disproportionately affecting Ceredigion County & Ceredigion County Council. The formula, as it stands, has resulted in a significantly lower percentage of funding for our county, which is detrimental to the economic, cultural, and educational wellbeing of our communities.

This Council further notes:

1. The unique demographic and geographic characteristics of Ceredigion, which require a funding model that adequately reflects the challenges faced by rural and less densely populated areas.
2. The potential long-term impacts on Ceredigion's economy, culture, and education system if the current funding formula remains unchanged, including the risk of declining public services and infrastructure.
3. The importance of ensuring that Ceredigion receives a fair share of funding that is commensurate with its needs, allowing the county to thrive and continue to offer high-quality services to its residents.

This Council resolves to:

1. Express its full support for Ceredigion County Council's ongoing efforts to lobby the Welsh Government for a review and revision of the current funding formula.
2. Urge the Welsh Government to take immediate steps to engage with Ceredigion County Council and other relevant stakeholders in a meaningful dialogue aimed at establishing a more equitable funding model.
3. Encourage other town and community councils within Ceredigion to also support and amplify the call for a fairer funding allocation that better reflects the needs and circumstances of our county.
4. Request that the Town Clerk writes to the relevant Welsh Government ministers, local Assembly Members, and Members of Parliament, conveying this Council's position and urging them to advocate for a change in the funding formula that will benefit Ceredigion.
5. Continue to monitor the situation and collaborate with Ceredigion County Council to ensure that the interests of Aberystwyth and the wider county are represented in all discussions regarding funding allocations.

Outcome:

This motion, if passed, will be forwarded to Ceredigion County Council, the Welsh Government, and relevant stakeholders as part of Aberystwyth Town Council's commitment to supporting our county's financial stability and future prosperity.

Andrew Slade

Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi,

Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

30 Medi 2024

Maes Awyr Caerdydd

Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 19 Medi 2024.

Rhestrir yma'r camau gweithredu o'r cyfarfod, ynghyd â'r meysydd y byddem yn croesawu cael
gwybodaeth ychwanegol neu'r wybodaeth ddiweddarach yn eu cylch fel y bo'n briodol.

- Gofynnwyd ichi am y 15 o geisiadau am wariant cyfalaf a wnaed gan y maes awyr, sy'n
amrywio mewn gwerth o £50,000 i £1 filiwn yr un, sef cyfanswm o £4.6 miliwn, yn ogystal â
thri chais dros £1 filiwn yr un, sef cyfanswm o £13.6 miliwn. Gwnaethoch gytuno i ddarparu
crynodedd o bob un o'r taliadau hyn a'r rhesymau dros eu gwneud. Edrychwn ymlaen at
gael hwn, a gofynnwn am i gymaint o wybodaeth â phosibl gael ei darparu, tra'n
cydnabod yr angen am gyfrinachedd masnachol.
- Mewn perthynas â bwrdd newydd Holdco, gwnaethoch ymrwymo i ddarparu rhagor o
wybodaeth am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu eu perfformiad. Dylai hyn
gynnwys mesurau penodol a ddefnyddir i fesur eu perfformiad a chadarnhad ynghylch a
fydd y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

Ar bwynt mwy cyffredinol, hoffai'r Pwyllgor dderbyn eich cynnig i ymddangos ger ein bron ar ôl i
broses yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddod i ben, i archwilio ymhellach gwestiynau'n
ymwneud â buddsoddiad arfaethedig Llywodraeth Cymru yn y maes awyr. Bydd tîm clericio'r Pwyllgor
yn cysylltu â'r swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru i drefnu dyddiad addas ar gyfer y sesiwn
hon.

Byddem yn croesawu cael eich ymateb erbyn 21 Hydref 2024.



Yn gywir,



Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Hydref 2024

Annwyl Gadeirydd

MAES AWYR CAERDYDD

Diolch am eich llythyr ar 30 Medi yn amlinellu camau dilynol sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar Faes Awyr Caerdydd ar 19 Medi. Rwy'n falch o roi'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani isod.

Gwariant cyfalaf:

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad lefel uchel o wariant cymeradwy. Fel y bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi, ni allwn ddarparu unrhyw fanylion y tu hwnt i'r hyn a ddarperir isod er mwyn diogelu buddiannau masnachol a sefyllfaoedd negodi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd (CIAL) yn y dyfodol a'r trydydd partiön dan sylw, Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi syniad i aelodau'r Pwyllgor pa feysydd o weithrediadau'r maes awyr y mae'r buddsoddiad cyfalaf wedi'i gefnogi.

Rhwng £50,000 a £1m:

Blwyddyn y Cais Cychwynnol	Eitem	Rheswm
2021	Offerynnau y system lanio (o'r dwyrain)	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2022	Offer sgrinio diogelwch	Uwchraddio rheoleiddiol gorfodol
2022	Tractor Amaethyddol	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2022	Newid to adeilad y derfynfa (cam 1)	Rheoli Cyfleusterau

2022	Oerydd aer adeilad y derfynfa teithwyr	Rheoli Cyfleusterau
2022	Offerynnau y system lanio (o'r gorllewin) ac offer mesur pellter	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2022	Ymgynghoriaeth allanol i gefnogi prosiect adfer y rhedfa	Paratoi i sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol
2022	Radar – adnewyddu mecanyddol	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2022	Lori ail-lenwi tanwydd awyrennau	Newydd
2023	Newid gorchudd yr offer yn yr ystafell rheoli traffig awyr	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2023	System rheoli llais brys rheoli traffig awyr	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2024	Newid to y derfynfa teithwyr (cam 2)	Rheoli cyfleusterau
2024	Goleuadau argyfwng	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2024	Uwchraddio cyfleusterau tenantiaid	Hyrwyddo twf busnes
2024	Antena radar	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol

Dros £1m:

Blwyddyn y Cais Cychwynnol	Eitem	Rheswm
2022	Sganwyr paciau diogelwch y genhedlaeth nesaf	Uwchraddio rheoleiddio gorfodol
2023	Adfer atredfa	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol
2024	Prosesydd data radar	Newid i gynnal cydymffurfiaeth reoleiddiol

Holdco

Prif ddyletswydd Bwrdd Holdco yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael y gwerth y maent yn ei ddisgwyl gan eu cyfranddaliad yn CIAL. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan aelodau Bwrdd Holdco y cyfrifoldebau canlynol:

- I fynychu cyfarfodydd WGC Holdco yn unig, a chyfarfodydd Holdco / CIAL ar y cyd yn rheolaidd.
- Ystyried, a chymeradwyo lle bo'n briodol, faterion cydsynio i CIAL megis y Cynllun Busnes blynyddol a'r Gyllideb Weithredu, ymrwmo i unrhyw gontractau a chytundebau uwchlaw gwerth penodol, gan gynnwys tir ac eiddo.
- Craffu ar berfformiad CIAL o ran cyflawni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt, a monitro'r ffordd y mae CIAL yn mynd ati i adrodd ar berfformiad.

- Cefnogi bwrdd CIAL i ddatblygu strategaethau a chynlluniau busnes ar gyfer y maes awyr, gan gynnig her adeiladol, mewnwelediadau strategol a llywio'r bwrdd CIAL fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod hyfywedd ariannol CIAL a WGC Holdco yn cael eu cynnal.
- Cymeradwyo a llofnodi cyfrifon blynyddol WGC Holdco a sicrhau bod unrhyw ddatganiadau a wneir yn adlewyrchu sefyllfa ariannol y Cwmni yn llawn.
- Arfer eu pwerau yn eu rolau fel cyfarwyddwyr cwmni, gan ystyried y rhwymedigaethau perthnasol o dan y gyfraith a rheoliadau sy'n bodoli ar y pryd, gan gynnwys Deddf Cwmnïau 2006, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a rheoliadau a deddfwriaeth gysylltiedig.
- Hyrwyddo safonau uchel o ran arian cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.
- Sicrhau bod gweithgareddau WGC Holdco yn cael eu cyflawni mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i roi sicrwydd am reoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.
- Fel y bo'n briodol, cynnig mewnwelediadau a chynghor strategol i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo llunio a darparu polisi maes awyr Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod y Cwmni yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn perthynas â defnyddio arian cyhoeddus; ei fod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus; a'i fod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn adolygu'n rheolaidd, wybodaeth ariannol am reoli WGC Holdco; bod Llywodraeth Cymru yn cael ei hysbysu'n amserol am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau WGC Holdco.
- Arddel safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, er mwyn mynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill.

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn, mae Bwrdd Holdco yn cyfarfod â CIAL bob chwarter o leiaf ac o bryd i'w gilydd ar sail ad hoc pan fydd angen ystyried materion cydsynio brys. Mae swyddogion polisi trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru yn darparu'r swyddogaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfodydd hyn ac yn cefnogi bwrdd Holdco i gyflawni ei ddyletswyddau a restrir uchod. Mae swyddogion ar lefel Uwch Weision Sifil (SCS) hefyd yn mynychu pob un o'r cyfarfodydd hynny fel arsylwyr, i sicrhau bod Holdco yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu lefel uchel o graffu a her i benderfyniadau masnachol Bwrdd y Maes Awyr. Mae Cadeirydd Holdco hefyd yn cyfarfod bob pythefnos yn fwy anffurfiol gyda:

- Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Maes Awyr i drafod perfformiad busnes, materion gweithredol, risgiau a chyflleoedd busnes. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu mynychu gan SCS.
- Arweinydd polisi'r SCS ar gyfer y Maes Awyr, i drafod materion polisi a strategaeth y Maes Awyr ac i drafod perfformiad Holdco.

Ceir sgysiau anffurfiol rheolaidd rhwng arweinydd polisi Maes Awyr SCS a Phrif Swyddog Gweithredol y Maes Awyr, sy'n rhoi cyfle i dîm gweithredol y Maes Awyr roi eu persbectif ar weithrediad Holdco. Mae yna berthynas broffesiynol hefyd rhwng Cadeirydd y Maes Awyr a Chyfarwyddwr Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol Llywodraeth Cymru, pe bai problem yn ymwneud â pherfformiad Holdco sy'n gofyn am drafod ar y lefel honno.

Ar sail yr ymgysylltu rheolaidd hyn, mae Llywodraeth Cymru yn hapus â pherfformiad bwrdd newydd Holdco ers ei benodiad ac mae'n fodlon ei fod yn cyflawni ei holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau y cytunwyd arnynt ar ran Gweinidogion Cymru. Rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn deall na allaf ddatgelu unrhyw fanylion yn y cofnodion o'r ymrwymïadau hynny neu gopiâu o gydsyniadau ysgrifenedig, er enghraifft, oherwydd sensitifrwydd masnachol penodol.


Yn olaf, bydd y Pwyllgor wedi nodi asesiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o'n buddsoddiad hirdymor arfaethedig ym Maes Awyr Caerdydd a gyhoeddwyd ar 2 Hydref. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio Ddatganiad Ysgrifenedig mewn ymateb: [Datganiad Ysgrifenedig: Asesiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o strategaeth hirdymor arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd \(2 Hydref 2024\) | LLYW.CYMRU](#). Nid ydym yn mynd i wneud sylwadau ar fanylion adroddiad CMA. Yn unol â'r Datganiad Ysgrifenedig, byddwn nawr yn cymryd yr amser sydd ei angen i roi ystyriaeth lawn i'w hasesiad. Rydym yn parhau i fod yn agored i fireinio ein rhaglen fuddsoddi arfaethedig ar sail yr asesiad hwnnw a bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn diweddarau'r Senedd maes o law unwaith y byddwn wedi penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Byddwn yn ystyried yr angen am addasiadau i swyddogaethau llywodraethu Holdco unwaith y bydd Gweinidogion wedi penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

Gobeithio bod yr uchod o ddiddordeb.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir



ANDREW SLADE

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

David Richards
Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg
Llywodraeth Cymru

15 Hydref 2024

Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion

Annwyl Mr Richards,

Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar gyda'r Ysgrifennydd Parhaol, fe wnaethom gytuno i ysgrifennu i roi cyfle i chi ddarparu ymatebion i'r cwestiynau yr oeddem wedi bwriadu eu gofyn yn uniongyrchol i chi pe baech wedi gallu bod yn bresennol. Nodir y rhain yn Atodiad A.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 29 Hydref.

Cofion,



Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A –

Cod y Gweinidogion a chwynion: sut y cymhwysir y canllawiau

1. Oeddech chi'n gweithredu fel cynghorydd annibynnol o dan delerau'r Cod pan wnaethoch chi ymchwilio i p'un a oedd cyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi torri Cod y Gweinidogion? Os felly, sut y cawsoch eich penodi?
2. Ar 23 Mai, fe wnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor eich bod wedi rhoi cyngor dros y ffôn ynghylch achos posibl o dorri Cod y Gweinidogion gan Weinidog yr Economi ar y pryd. Fe wnaethoch ddweud bod rhywun wedi creu copi ysgrifenedig o'r cyngor ar eich rhan. Oeddech chi'n gweithredu fel cynghorydd annibynnol o dan y Cod, ac os felly, sut y cawsoch eich penodi?
3. Os nad oeddech yn gweithredu fel cynghorydd annibynnol, ym mha rinwedd y gwnaethoch chi roi cyngor am gyn-Weinidog yr Economi a phwy gomisiynodd y cyngor hwnnw?
4. Pam y cyhoeddwyd eich adroddiad ar gyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ond nid eich cyngor am gyn-Weinidog yr Economi: a yw hyn yn awgrymu anghysondebau yn y dull gweithredu gan fod paragraff 1.7 o God y Gweinidogion yn nodi y bydd canfyddiadau'r cynghorydd annibynnol yn cael eu cyhoeddi?
5. Fe wnaethoch gadarnhau na chafodd ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth ei gomisiynu na'i gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag achos diweddar y cyn-Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, ond roedd y cyn-Brif Weinidog wedi gofyn am gyngor, ac wedi cael cyngor, am y broses ar gyfer ymdrin ag achos o dorri Cod y Gweinidogion. A allwch egluro sut y mae Cod y Gweinidogion yn rhyngweithio ag ymchwiliadau i achosion o ddatgelu gwybodaeth?
6. Cyn 2021, nid oedd Cod y Gweinidogion yn rhoi unrhyw rôl i'r Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion eraill o ran ymchwilio i achosion o dorri Cod y Gweinidogion. Roedd fersiynau o'r Cod rhwng 2007 a 2016 yn dweud yn benodol nad rôl yr Ysgrifennydd Parhaol na swyddogion eraill oedd gorfodi'r Cod, nac ymchwilio i Weinidogion. A allwch egluro beth a ysgogodd y newid hwn, a pham y barnwyd bod hyn yn briodol?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Richards OBE
Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg
Director of Propriety and Ethics

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

28 Hydref 2024

Annwyl Cadeirydd,

Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Hydref yn dilyn eich sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Parhaol.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd modd imi ymuno â'r Ysgrifennydd Parhaol yn y sesiwn dystiolaeth ac rwy'n ddiolchgar am eich dealltwriaeth o'r amgylchiadau. Rwy'n falch o gael y cyfle hwn i ymateb i'r cwestiynau yr oedd y Pwyllgor wedi bwriadu eu gofyn imi yn y sesiwn.

1. Oeddech chi'n gweithredu fel cynghorydd annibynnol o dan delerau'r Cod pan wnaethoch chi ymchwilio i p'un a oedd cyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi torri Cod y Gweinidogion? Os felly, sut y cawsoch eich penodi?

Rhan o'm rôl yn Llywodraeth Cymru, y cefais fy mhenodi iddi gan yr Ysgrifennydd Parhaol, yw cynghori gweinidogion ar gymhwyso Cod y Gweinidogion ac ymchwilio, pan ofynnir imi wneud hynny gan y Prif Weinidog, i achos honedig o dorri'r Cod. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei sesiwn dystiolaeth, rwy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn annibynnol ac yn wrthrychol, yn unol ag egwyddorion Cod y Gwasanaeth Sifil. Ni all y Prif Weinidog fy nghyfarwyddo na dylanwadu arnaf o ran y cyngor a roddaf, ac nid yw'n ceisio gwneud hynny. Yn yr un modd, pan ofynnir imi gynnal ymchwiliad, nid yw'n fy nghyfarwyddo nac yn dylanwadu arnaf o ran y ffordd yr wyf yn cynnal yr ymchwiliad hwnnw na'r casgliadau yr wyf yn dod iddynt.

Yn yr ystyr hwnnw, felly, roeddwn yn gweithredu fel cynghorydd annibynnol ond nid oedd angen imi gael fy mhenodi i ymgymryd â'r ymchwiliad penodol hwnnw gan ei fod eisoes yn rhan o'm rôl. Yn syml, gofynnodd y Prif Weinidog imi wneud hynny.



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel **03000 604400**
David.Richards@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Serch hynny, rwy'n credu mai'r hyn sydd o dan sylw pan fo Cod y Gweinidogion yn cyfeirio at "gynghorydd annibynnol" yw rhywun o'r tu allan i Lywodraeth Cymru a benodir gan y Prif Weinidog yn benodol i ymchwilio i honiad bod y Cod wedi'i dorri. Nid oeddwn yn gweithredu yn y rôl honno.

2. Ar 23 Mai, fe wnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor eich bod wedi rhoi cyngor dros y ffôn ynghylch achos posibl o dorri Cod y Gweinidogion gan Weinidog yr Economi ar y pryd. Fe wnaethoch ddweud bod rhywun wedi creu copi ysgrifenedig o'r cyngor ar eich rhan. Oeddech chi'n gweithredu fel cynghorydd annibynnol o dan y Cod, ac os felly, sut y cawsoch eich penodi?

Roeddwn yn gweithredu o dan yr un trefniadau ag yr wyf wedi'u disgrifio yn yr ateb blaenorol.

3. Os nad oeddech yn gweithredu fel cynghorydd annibynnol, ym mha rinwedd y gwnaethoch chi roi cyngor am gyn-Weinidog yr Economi a phwy gomisiynodd y cyngor hwnnw?

Roeddwn yn gweithredu o dan y trefniadau yr wyf wedi'u disgrifio yn fy ateb i'r cwestiwn cyntaf. Comisiynwyd y cyngor gan y Prif Weinidog ar y pryd. Cyn imi ymateb a rhoi fy nghyngor, ceisiais a chefais sicrwydd nad oedd cyn-Weinidog yr Economi wedi chwarae unrhyw ran yn y penderfyniadau cyllido a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru.

4. Pam y cyhoeddwyd eich adroddiad ar gyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ond nid eich cyngor am gyn-Weinidog yr Economi: a yw hyn yn awgrymu anghysondebau yn y dull gweithredu gan fod paragraff 1.7 o God y Gweinidogion yn nodi y bydd canfyddiadau'r cynghorydd annibynnol yn cael eu cyhoeddi?

Penderfyniadau gan y Prif Weinidog ar y pryd oedd y rhain, yn hytrach na phenderfyniadau a wnaed gennyf i. Fy nealltwriaeth i o'r safbwynt oedd bod y Prif Weinidog ar y pryd o'r farn na ddylai'r cyngor yr oedd yn ei gael mewn perthynas â Chod y Gweinidogion gael ei ddatgelu fel arfer, yn unol â'r hyn sy'n arferol o ran cyngor gan y gwasanaeth sifil i weinidogion. Weithiau, fodd bynnag, roedd y Prif Weinidog yn teimlo y byddai er budd y cyhoedd i'm hadroddiad neu fy nghyngor gael ei gyhoeddi. Bydd y Pwyllgor yn cofio bod y Prif Weinidog ar y pryd wedi dweud yn gyhoeddus ei fod wedi gofyn imi am gyngor ynghylch a oedd cyn-Weinidog yr Economi wedi torri Cod y Gweinidogion ac mai fy nghyngor i oedd nad oedd wedi gwneud hynny.

5. Fe wnaethoch gadarnhau na chafodd ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth ei gomisiynu na'i gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag achos diweddar y cyn-Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, ond roedd y cyn-Brif Weinidog wedi gofyn am gyngor, ac wedi cael cyngor, am y broses ar gyfer ymdrin ag achos o dorri Cod y Gweinidogion. A allwch egluro sut y mae Cod y Gweinidogion yn rhyngweithio ag ymchwiliadau i achosion o ddatgelu gwybodaeth?



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 03000 604400
David.Richards@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Nid oes cysylltiad angenrheidiol rhwng y ddau. Caiff yr Ysgrifennydd Parhaol gomisiynu ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth os yw'n credu bod gwybodaeth swyddogol wedi cael ei datgelu heb awdurdod, a byddai'r Ysgrifennydd Parhaol fel arfer yn trafod â'r Prif Weinidog cyn gwneud hynny. Caiff y Prif Weinidog ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ymgymryd ag ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth. Ond nid oes rhaid i'r Ysgrifennydd Parhaol gomisiynu ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth bob tro y mae'n credu ei bod yn bosibl bod gwybodaeth wedi cael ei datgelu heb awdurdod, ac nid oes rhaid i'r Prif Weinidog chwaith ofyn am ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth o dan yr amgylchiadau hynny.


Mae Cod y Gweinidogion yn nodi'r safonau a'r ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weinidogion a phan fo'r Prif Weinidog yn credu ei bod yn bosibl nad yw gweinidog wedi cadw at y safonau hynny caiff ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol – neu imi, ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol – gynnal ymchwiliad. Ond, eto, nid oes rhaid i'r Prif Weinidog wneud hynny.

6. Cyn 2021, nid oedd Cod y Gweinidogion yn rhoi unrhyw rôl i'r Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion eraill o ran ymchwilio i achosion o dorri Cod y Gweinidogion. Roedd fersiynau o'r Cod rhwng 2007 a 2016 yn dweud yn benodol nad rôl yr Ysgrifennydd Parhaol na swyddogion eraill oedd gorfodi'r Cod, nac ymchwilio i Weinidogion. A allwch egluro beth a ysgogodd y newid hwn, a pham y barnwyd bod hyn yn briodol?

Nid wyf yn credu mai bwriad y fersiynau cynharach o God y Gweinidogion oedd atal y posibilrwydd o'r Prif Weinidog yn troi at yr Ysgrifennydd Parhaol neu swyddogion eraill am gyngor mewn perthynas â'r Cod neu i ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod. Er nad oeddwn yn rhan o'r trafodaethau am gynnwys y Cod rhwng 2007 a 2016, byddwn yn tybio mai diben y rhannau ohono y cyfeirir atynt oedd ei gwneud yn glir nad yw gweinidogion yn atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol am gadw at y Cod ac na fyddai'n briodol i'r Ysgrifennydd Parhaol, nac unrhyw was sifil arall, fynd ati ar ei liwt ei hun i ymchwilio i'r Prif Weinidog nac unrhyw weinidog arall. Mae hyn yn parhau i fod yn wir – rhaid i unrhyw ymchwiliad gan y gwasanaeth sifil i achos honedig o dorri'r Cod gael ei wneud ar gais y Prif Weinidog.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



David Richards OBE

Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg
Director of Propriety and Ethics
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel **03000 604400**
David.Richards@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon


Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23

Hydref 2024



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Fenter Twyll Cenedlaethol dwyflynyddol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2024. Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Ffeithiau allweddol ar gyfer Cymru	4
Negeseuon allweddol	5
Adroddiad manwl	
Deilliannau ar y cyfan	7
Dadansoddiad pellach o ddeilliannau yn ôl math	12
Datblygiadau yn y dyfodol	22
Atodiadau	
Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru	25



Ffeithiau allweddol ar gyfer Cymru



£7.1 miliwn – deilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2022-23



£56.5 miliwn – cyfanswm deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol ers 1996



4,354 – nifer y pariaidau data ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 â deilliannau yr adroddwyd arnynt



49 – nifer y sefydliadau a gyfranogodd ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23



97% – cyfran o werth y deilliannau a ddaeth o bariadau data awdurdodau lleol



15 – nifer y cyfranogwyr a adroddodd ar ddeilliannau dros £100,000

Negeseuon allweddol

- 1 Ymarfer atal twyll ledled y DU a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Mae'n helpu i atal a chanfod twyll trwy rannu a pharu setiau o ddata yn electronig. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o fanylion. Mae hefyd yn dangos y camau allweddol yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23¹.
- 2 Mae deilliannau twyll, gwall a gordaliadau gwerth £7.1 miliwn wedi cael eu cofnodi ers i ni adrodd ddiwethaf ar y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ym mis Hydref 2022. Mae deilliannau cronus ar gyfer Cymru ers i'r Fenter Twyll Genedlaethol ddechrau ym 1996 bellach yn gyfanswm o oddeutu £56.5 miliwn. Ledled y DU, mae deilliannau cronus y Fenter Twyll Genedlaethol bellach yn £2.9 biliwn.
- 3 Mae'r deilliannau i Gymru o Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23 £0.6 miliwn yn fwy nag ym Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. Y prif reswm dros hyn yw cynnydd yn nifer yr hawliadau twyllodrus neu wallus am fudd-dal tai a disgownt person sengl y dreth gyngor. Fodd bynnag, fe wnaeth gostyngiadau mewn meysydd eraill wrthbwysu'r codiadau hyn yn rhannol.
- 4 O'r £7.1 miliwn o ddeilliannau yr adroddwyd arnynt, daw 97% o bariadau data awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r dreth gyngor, budd-dal tai, bathodynau glas, rhestrau aros ar gyfer tai, a phensiynau. Rydym wedi cynnwys tair astudiaeth achos. Mae'r rhain yn amlygu mor werthfawr ydyw bod cyfranogwyr yn buddsoddi adnoddau i asesu ac adolygu pariadau data.
- 5 Y tu hwnt i unrhyw arbedion ariannol, mae manteision cyfranogi ac adolygu pariadau data'n cynnwys y sicrwydd y gall canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol eu darparu ynghylch systemau rheolaeth fewnol. Gall canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol amlygu meysydd ar gyfer gwella hefyd. Mae ein hadolygiad o adroddiadau paru data yn tynnu sylw at anghysonderau mewn trefniadau dilynol lleol a rhai amrywiadau mawr o ran canlyniadau rhwng cyfranogwyr o fath tebyg.
- 6 Ac er na fydd yr holl gyfranogwyr o anghenraid yn gweld deilliannau cadarnhaol sylweddol eu hunain, mae rhannu data'n ei gwneud yn bosibl ei baru rhwng cyrff ac ar draws ffiniau gwledydd. Fe wnaeth data a gyflwynwyd gan gyrff yng Nghymru ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 helpu sefydliadau mewn rhannu eraill o'r DU i adnabod deilliannau gwerth £0.2 miliwn o 104 o bariadau data.

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at bob un o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol pan gafodd ei lansio.



Rwyf wedi dweud yn flaenorol, er bod y drafodaeth am gyllid cyhoeddus yn aml yn canolbwyntio ar doriadau i wariant a/neu godi trethi, nad oes rhyw lawer yn cael ei ddweud am dwyll a gwall. Eto mae'n dal i fod yn falltod ar wasanaethau cyhoeddus.

Mae gwireddu manteision Menter Twyll Cenedlaethol yn ddibynnol ar gyrff yn fuddsodd ymdrech ac amser i asesu ac adolygu pariadau data'n effeithiol. Mae meintoli'r effaith gyffredinol hefyd yn dibynnu ar gyrff yn cofnodi eu canlyniadau. Mae rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dangos ymrwymiad cryf i'r Fenter Twyll Cenedlaethol, ond rwy'n dal i bryderu nad felly y mae hi bob amser.

Wrth i gylch nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol gael ei gyflwyno, bydd staff Archwilio Cymru'n cynyddu eu hymgysylltiad â chyrff sy'n cyfranogi i godi ymwybyddiaeth, hybu cyfranogiad gweithredol, a deall yn well sut y mae cyrff yn asesu ac yn adolygu pariadau.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Adroddiad manwl

Deilliannau ar y cyfan


Fe gofnododd Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 ddeilliannau o £7.1 miliwn i Gymru

- 7 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio'r term 'deilliannau' i gyfeirio at werth ariannol twyll, gwall a gordaliadau a ganfuwyd ac a ataliwyd trwy baru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- 8 Fe gofnododd Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 ddeilliannau o £7.1 miliwn ar gyfer Cymru. Mae hyn yn gynydd o £0.6 miliwn o'i gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2020-21, er ei fod yn dal yn llai na'r £8 miliwn o ddeilliannau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2018-19.
- 9 Mae'r ffigyrau deilliannau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:
 - deilliannau gwirioneddol – symiau gwirioneddol y mae cyfranogwyr wedi'u cofnodi fel twyll, gwall a gordaliad; a
 - deilliannau amcangyfrifedig – elfen wedi'i hamcangyfrif sy'n ceisio cofnodi gwerth y golled o ganlyniad i dwyll neu wall a ganfuwyd, a gwerth unrhyw golledion yn y dyfodol y gallai cyrff fod wedi'u cael heb ymyrryd yn dilyn paru yn y Fenter Twyll Genedlaethol².
- 10 Mae gwerth deilliannau gwirioneddol yr adroddwyd arnynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 yn £3.2 miliwn (45% o gyfanswm y deilliannau). Mae **Arddangosyn 1** yn cymharu'r deilliannau ar y cyfan a'r dadansoddiad hwn â thri ymarfer blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol . Adroddwyd ar ddeilliannau â chyfanswm gwerth o fwy na £100,000 gan 15 o gyfranogwyr, yr oedd 14 ohonynt yn awdurdodau lleol³.

2 Mae gan y rhan fwyaf o setiau data'r Fenter Twyll Genedlaethol fethodoleg i gyfrifo deilliannau amcangyfrifedig. Mae methodolegau'n cael eu hadolygu cyn pob un o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Bwrdd Llywodraeth NFI Swyddfa'r Cabinet yn adolygu ac yn cymeradwyo newidiadau i'r fethodolegau bresennol pan fu newidiadau'n seiliedig ar ddata wedi'i adnewyddu. Mae unrhyw fethodolegau newydd yn cael eu cymeradwyo gan y Panel Atal Twyll

3 Heb gynnwys deilliannau achosion budd-dal tai a drosglwyddwyd gan awdurdodau lleol i Adran Gwaith a Phensiynau'r DU ar gyfer ymchwilad (gweler paragraff 24).

Arddangosyn 1: Deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ôl ymarferion, rhwng 2016-17 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

- 11 Mae deilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 yn cynnwys rhai achosion o bariadau Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 lle cwblhawyd adolygiadau a lle'r adroddwyd arnynt ar ôl mis Mawrth 2022. Mae arbedion hwyr o Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 yn rhoi cyfrif am £0.7 miliwn (10%) o gyfanswm y deilliannau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwnnw, £0.5 miliwn, yn ymwneud â phariadau data budd-dal tai.
- 12 Un o fanteision allweddol ymarfer paru data ledled y DU yw ei fod yn ei gwneud yn bosibl paru data rhwng cyrff ac ar draws ffiniau gwledydd. Felly, er na fydd cyfranogwyr o bosibl yn adnabod deilliannau sylweddol o'u parïadau hwy eu hunain, mae darparu eu data'n gallu helpu cyrff a sectorau eraill i adnabod twyll, gwall a gordaliadau. Fe wnaeth data a ddarparwyd gan gyfranogwyr yng Nghymru ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 helpu cyrff y tu allan i Gymru adnabod deilliannau gwerth £0.2 miliwn.
- 13 Yn yr un modd, mae data gan gyfranogwyr eraill yn y DU wedi helpu i adnabod deilliannau yng Nghymru. Er enghraifft, fe wnaeth awdurdod lleol yng Nghymru dynnu enw unigolyn oddi ar restr aros ar gyfer tai ar ôl adolygu parïad data lle'r oedd yr unigolyn ar restr aros yn Lloegr hefyd.

Fe wnaeth pum maes paru data gynhyrchu ychydig dros 90% o’r deilliannau

14 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi’r meysydd paru data a gynhyrchodd y mwyaf o ddeilliannau. Fe wnaeth disgowntiau’r dreth gyngor, budd-dal tai, bathodynnau glas, rhestrau aros ar gyfer tai, a phensiynau gynhyrchu ychydig dros 90% o’r deilliannau yn ôl eu gwerth.

Arddangosyn 2: meysydd paru data a gynhyrchodd y mwyaf o ddeilliannau, NFI 2022-23

Maes paru data	Nifer y pariadau data â deilliannau	Cyfanswm gwerth deilliannau (£ miliwn)	% o werth y deilliannau
Gostyngiadau treth cyngor	2,084	2.9	41
Budd-dal tai	298	1.5	22
Bathodynnau glas	1,566	1.0	14
Rhestrau aros ar gyfer tai	124	0.5	7
Pensiynau	40	0.4	6
Arall ¹	242	0.6	9
Cyfanswm²	4,354	7.1	100

Nodiadau:

- 1 Mae deilliannau eraill yn ymwneud yn bennaf â chynllun gostyngiadau’r dreth gyngor a thaliadau credydwy (gweler **paragraffau 37 i 41**).
- 2 Efallai na fydd cyfansymiau yn cyfateb i swm y rhannau oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau’r Fenter Twyll Genedlaethol


15 Unwaith y mae cyrff wedi adnabod twyll, gwall, neu ordaliadau, gallant weithredu’n briodol i adfer arian. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024, roedd £2.7 miliwn (86%) o’r deilliannau gwirioneddol yr adroddwyd arnynt (gweler **Arddangosyn 1**) wedi cael, neu yn y broses o gael, eu hadfer.

Mae deilliannau uwch mewn rhai meysydd wedi cael eu gwrthbwysu, yn rhannol, gan ddeilliannau is mewn eraill

16 Mae deilliannau ar y cyfan yng Nghymru wedi cynyddu £0.6 miliwn ers yr ymarfer diwethaf. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod y rhesymau dros y cynnydd hwn yn cynnwys:

- bod deilliannau budd-dal tai wedi codi o £0.6 miliwn i £1.5 miliwn. Mae ychydig dros un rhan o dair o werth deilliannau Budd-dal Tai'n ymwneud ag arbedion hwyr o ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21;
- gostyngiad yn nifer y bathodynau glas a ganslwyd yng Nghymru, o 2,717 i 1,566, gan beri i ddeilliannau yn y maes hwn ostwng o 35% o £1.6 miliwn i £1.0 miliwn; a
- bod cynnydd o 31 wedi bod yn yr achosion lle parhawyd i dalu pensiynau ar ôl i bensiynwyr farw, o naw achos ym Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 i 40 yn yr ymarfer hwn a chan achosi i ddeilliannau godi o £0.1 miliwn i £0.4 miliwn.

Arddangosyn 3: cymharu deilliannau fesul maes paru data, Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

17 Fodd bynnag, cafodd codiadau o'r fath eu gwrthbwysu'n rhannol gan:


- y ffaith bod yr ymarfer blaenorol wedi cynnwys pariadau data a oedd yn ymwneud â rhai grantiau cymorth i fusnesau yn ystod cyfnod COVID-19, yr adroddwyd ar £0.6 miliwn o dwyll a gwall mewn perthynas â hwy;
- gostyngiad yn nifer y bathodynnau glas a ganslwyd yng Nghymru, o 2,717 i 1,566, gan beri i ddeilliannau yn y maes hwn ostwng 35% o £1.6 miliwn i £1.0 miliwn; a
- bod nifer yr achosion o ymgeiswyr yr adnabwyd fod angen eu tynnu oddi ar restrau aros ar gyfer tai wedi gostwng o 237 i 124, gan beri i ddeilliannau ostwng o £0.8 miliwn i £0.5 miliwn.

Dadansoddiad pellach o ddeilliannau yn ôl math

Mae gwerth a nifer disgowntiau person sengl y dreth gyngor a ganslwyd wedi cynyddu

- 18 Mae bil treth gyngor llawn yn seiliedig ar fod ag o leiaf ddau oedolyn yn byw mewn cartref. Mae pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu gydag oedolion eraill y maent i gyd yn cael eu diystyru ar gyfer y dreth gyngor yn gymwys ar gyfer disgownt person sengl o 25%. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ynparu data'r dreth gyngor ag ystod o ddata arall i helpu i adnabod ble y mae pobl yn cael y disgownt yn amhriodol.
- 19 Fe arweiniodd Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 at ganslo 2,084 o hawliadau am ddisgownt person sengl, cynnydd o 5% o'i gymharu ag ymarfer 2020-21, ar draws naw awdurdod lleol. Dengys **Arddangosyn 4**, yn ôl eu gwerth, fod deilliannau wedi cynyddu £0.3 miliwn yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23, i £2.9 miliwn.

Arddangosyn 4: deilliannau disgownt person sengl y dreth gyngor yn ôl ymarferion y FTC, rhwng 2016-17 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

- 20 O'r £2.9 miliwn, roedd bron i £1.3 miliwn yn ymwneud â disgowntiau gwirioneddol yr oedd pobl eisoes wedi elwa ohonynt, h.y. gostyngiadau i filiau'r dreth gyngor nad oeddent yn gymwys i'w cael. Amcangyfrifir y bydd canslo'r disgowntiau hyn yn arbed £1.7 miliwn yn y dyfodol. Mae deiliant cyfartalog pob achos yn £1,407 o'i gymharu â £1,305 yr achos ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21.
- 21 Daeth y rhan fwyaf o gansladau o bariadau â data'r gofrestr etholiadol. Fodd bynnag, roedd oddeutu 20% o achosion am bod aelod o'r aelwyd wedi troi'n 18 oed a bod yr awdurdod lleol heb gael ei hysbysu. Mae **Arddangosyn 5** yn amlygu dull Cyngor Dinas Casnewydd o adolygu disgowntiau person sengl y dreth gyngor. Adroddodd y Cyngor ar ychydig dros chwarter cyfanswm y deilliannau disgownt person sengl ar gyfer Cymru.

Arddangosyn 5: Cyngor Dinas Casnewydd a deilliannau disgownt person sengl y dreth gyngor


Adroddodd Cyngor Dinas Casnewydd ar fwy na chwarter cyfanswm y deilliannau disgownt person sengl y dreth gyngor, yn ôl eu gwerth a nifer y disgowntiau a ganslwyd. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn wiriad ychwanegol sydd wedi cael ei gynnwys ym mhrosesau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod dyfarniadau disgownt person sengl y dreth gyngor yn ddilys, gyda swyddog profiadol a neilltuwyd i'r gwaith yn adolygu'r holl bariadau data sy'n ymwneud â'r dreth gyngor.

O ganlyniad i'r dull hwn fe ganslodd y Cyngor 627 o hawliadau am ddisgownt person sengl ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23, gan adfer £0.35 miliwn o ddisgowntiau nad oeddent yn ddilys. Mae canslo'r disgowntiau hyn wedi atal £0.45 miliwn yn ychwanegol o incwm rhag cael ei golli.

Mae deilliannau budd-dal tai wedi cynyddu'n sylweddol, ond maent hefyd yn cynnwys cyfran sylweddol o arbedion hwyr o Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21

- 22 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau adnabod ystod eang o achosion o dwyll a gwallau sy'n ymwneud â budd-daliadau. Mae'n paru data budd-daliadau tai â data benthyciadau i fyfyrwyr, cyflogresi, pensiynau, budd-dal tai mewn awdurdodau lleol eraill, tenantiaid tai, trwyddedau, pobl ymadawedig ac Amberhill⁴, i helpu i adnabod hawliadau anghymwys.
- 23 Mae **Arddangosyn 6** yn dangos bod gwerth achosion budd-dal tai a gofnodwyd â thwyll, gwall a gordaliadau ar ei lefel uchaf dros bedwar ymarfer diwethaf y Fenter Twyll Genedlaethol. Fe gynyddodd deilliannau yr adroddwyd arnynt o £0.6 miliwn ym Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 i £1.5 miliwn ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23.

Arddangosyn 6: deilliannau budd-dal tai yn ôl ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol, rhwng 2016-17 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol


4 Mae Ymgyrch Amberhill yn fenter arweinir gan Wasanaeth Heddlu Metropolitan. Mae'r tîm yn coladu ac yn dosbarthu data ar hunaniaethau'n ffig

- 24 Mae awdurdodau lleol yn cyfeirio pariadau data lle ceir amheuaeth o dwyll at yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer ymchwiliad. Nid yw deilliannau o ymchwiliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cael eu priodoli'n ôl i awdurdodau lleol unigol. O'r £1.5 miliwn mewn deilliannau budd-dal tai a'r 298 o achosion, adroddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar £1.3 miliwn a 249 o achosion. 12 o awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am weddill y deilliannau ac achosion.
- 25 Mae rhyw £0.54 miliwn (35%) o'r deilliannau budd-dal tai'n ymwneud ag arbedion hwyr o bariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2020-21, gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau'n adrodd ar £0.48 miliwn.

Roedd nifer y bathodynau glas a ganslwyd yn is nag yn y tri ymarfer blaenorol ac fe ostyngodd am y tro cyntaf ers Menter Twyll Genedlaethol 2012-13

- 26 Mae'r cynllun parcio bathodyn glas yn caniatáu i bobl â phroblemau symudedd barcio am ddim wrth fesuryddion parcio ar y stryd, mewn mannau talu ac arddangos, mewn mannau bathodyn glas dynodedig, ac ar linellau melyn sengl neu ddwbl dan rai amgylchiadau. Mae data bathodynau glas yn cael ei baru â phobl ymadawedig a data Amberhill.
- 27 Weithiau mae bathodynau'n cael eu defnyddio neu eu hadnewyddu'n amhriodol gan bobl ar ôl i ddeiliad y bathodyn farw. Mae'n drosedd i berson heb awdurdod ddefnyddio bathodyn glas. Mae camddefnydd o'r fath yn lleihau referniwiau parcio ac yn cyfyngu ar y cyfleusterau parcio sydd ar gael i ddeiliaid bathodynau diledryw.
- 28 Fe arweiniodd Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 at ganslo 1,566 o fathodynau glas yng Nghymru ar draws 11 o awdurdodau lleol. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos y gostyngiad yn nifer y bathodynau glas a ganslwyd o'i gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2020-21, a hwnnw'n ostyngiad o 42%. Hwn oedd y tro cyntaf i nifer y bathodynau a ganslwyd ostwng ers Menter Twyll Genedlaethol 2012-13 ac roedd y ffigwr hefyd yn is nag ym Menter Twyll Genedlaethol 2016-17 a Menter Twyll Genedlaethol 2018-19.

Arddangosyn 7: bathodynau glas a ganslwyd yn ôl ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol, rhwng 2016-17 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

- 29 Mae gwerth amcangyfrifedig y 1,566 o achosion hyn yn £1.0 miliwn. Mae hyn yn seiliedig ar gyfrifiad o gost amcangyfrifedig flynyddol refeniw parcio a gollwyd a'r tebygolrwydd bod y bathodynau glas hyn wedi cael eu camddefnyddio. Mae **Arddangosyn 8** yn amlygu sut y gwnaeth Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 hwyluso camau i ganslo bron i 300 o fathodynau yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac yn arwain at drefniadau gweinyddol cryfach.

Arddangosyn 8: Cyngor Sir Ynys Môn a deilliannau bathodynau glas

Fe wnaeth Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 alluogi Cyngor Sir Ynys Môn i adnabod 299 o bariadau lle'r oedd bathodynau glas yn dal i fod mewn cylchrediad ar ôl marwolaeth.

Mae 'Dywedwch Wrthym Unwaith' yn wasanaeth sy'n galluogi rhywun i roi gwybod i'r rhan fwyaf o asiantaethau'r llywodraeth am farwolaeth mewn un weithred. Mae hyn yn galluogi cyngorau i: ganslo budd-dal tai, gostyngiad y dreth gyngor neu fathodyn glas; hysbysu gwasanaethau tai; a thynnu enw'r person oddi ar y gofrestr etholiadol.


Datgelodd ymchwiliadau gan y Tîm Archwilio Mewnol nad oedd y Cyngor wedi cynnwys Cyswllt Môn, y gwasanaeth derbynfydd, sy'n ymdrin â bathodynau glas, yn ei fenter 'Dywedwch Wrthym Unwaith', ac felly nid oedd y gwasanaeth derbynfydd yn cael ei hysbysu ynghylch marwolaethau.

Mae'r Cyngor yn cryfhau ei brosesau rheolaeth fewnol i sicrhau bod gweinyddwyr bathodynau glas yn gallu croesgyfeirio manylion deiliaid hawlenni'n rhagweithiol gyda chofnodion pobl ymadawedig, fel ei fod yn gallu canslo bathodynau'n brydlon.

Mae nifer yr ymgeiswyr anghymwys a dynnwyd oddi ar restrau aros ar gyfer tai bron wedi haneru ers Menter Twyll Genedlaethol 2020-21, er bod y rhan fwyaf o'r deilliannau yr adroddwyd arnynt yn ymwneud ag un awdurdod lleol

- 30 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio data rhestrau aros ar gyfer tai i adnabod twyll posibl mewn perthynas â rhestrau aros. Mae hyn yn digwydd pan fo unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros ond bod newidiadau posibl mewn amgylchiadau sydd heb gael eu datgelu. Neu gallant fod wedi darparu gwybodaeth anwir.
- 31 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ynparu data rhestrau aros ar gyfer tai â data rhestrau aros mewn awdurdodau lleol eraill, budd-dal tai, tenantiaid tai, pobl ymadawedig, ac Amberhill. Ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dal i fod yn berchen ar stoc dai, fe ostyngodd nifer yr ymgeiswyr anghymwys a dynnwyd oddi ar restrau tai bron 50% (o 237 i 124 o achosion) rhwng Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 a Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 (Arddangosyn 9).

Arddangosyn 9: nifer yr ymgeiswyr a dynnwyd oddi ar restrau aros yn ôl ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol, rhwng 2016-17 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

- 32 Ychydig dros £0.5 miliwn yw gwerth amcangyfrifedig yr achosion hyn. Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar gyfrifiad o gost amcangyfrifedig flynyddol cartrefu teulu mewn llety dros dro a'r tebygolrwydd y byddai ymgeisydd ar restr aros yn cael eiddo.
- 33 Cyngor Dinas a Sir Abertawe adroddodd ar bron pob un o'r deilliannau rhestrau aros ar gyfer tai. Mae **Arddangosyn 10** yn amlygu dull y Cyngor o adolygu pariadau data'r rhestr aros ar gyfer tai. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer adolygu rhestrau aros ar gyfer tai yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

Arddangosyn 10: Cyngor Dinas a Sir Abertawe a deilliannau'r rhestr aros ar gyfer tai

Cyngor Dinas a Sir Abertawe oedd yn gyfrifol am 120 o'r 124 o ddeilliannau ar gyfer rhestrau aros ar gyfer tai.


Fe drosglwyddodd y cyfrifoldeb am adolygu pariadau data'r rhestr aros ar gyfer tai yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe i'r Tîm Twyll Corfforaethol ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23.

Roedd hyn yn golygu bod adnoddau staff a neilltuwyd i'r gwaith ar gael i adolygu'r cyfan, yn hytrach na sampl, o'r pariadau data. Yn dilyn y gweithgarwch hwn i lanhau'r rhestr aros ar gyfer tai, disgwylir y bydd y deilliannau yr adroddwyd arnynt gan y Cyngor yn gostwng ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

Fe wnaeth deilliannau ar gyfer pensiynau a oedd yn dal i gael eu talu ar ôl i bensiynwyr farw godi'n sylweddol ond roeddent yn gysylltiedig yn bennaf ag un awdurdod lleol

- 34 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi ffordd effeithlon ac effeithiol i awdurdodau lleol sy'n gweinyddu pensiynau wirio mai dim ond i bobl sy'n fyw y maent yn talu.
- 35 Mae **Arddangosyn 11** yn dangos bod nifer yr achosion lle parhawyd i dalu pensiynau ar ôl i bensiynwyr farw wedi cynyddu i 40 o achosion ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23. Roedd hyn yn cymharu â dim ond naw o achosion a adnabuwyd ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. O ran eu gwerth, fe gynyddodd y deilliannau o £0.07 miliwn i £0.45 miliwn. Cododd gwerth cyfartalog achosion o £8,160 i £11,214. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau'n gysylltiedig yn bennaf ag un awdurdod lleol.

Arddangosyn 11: achosion lle parhawyd i dalu pensiynau ar ôl i bensiynwyr farw yn ôl ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol, rhwng 2016-17 a 2022-23



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol

- 36 O'r ffigwr ar gyfer cyfanswm y deilliannau, mae £0.41 miliwn (91%) yn gysylltiedig â'r amcangyfrif o dwyll, gwallau, a gordaliadau a fyddai wedi parhau heb eu canfod heb baru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o'r deilliannau sy'n weddill yn gysylltiedig â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a thaliadau credydwy

Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor

- 37 Mae cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n seiliedig ar brawf modd yn helpu pobl ar incwm isel i dalu biliau'r dreth gyngor. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ynparu data cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ag amrywiaeth eang o ddata arall, gan gynnwys data cyflogresi, pensiynau, budd-daliadau tai ac Amberhill.
- 38 Fe adroddodd pedwar ar ddeg o awdurdodau lleol ar gyfanswm deilliannau o £0.30 miliwn yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23. Roedd hyn yn gynnydd o 36% o'i gymharu â'r £0.22 miliwn yr adroddwyd arno ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-21. Fodd bynnag, gostyngodd nifer yr hawliau a ddiwygiwyd neu a ganslwyd o 214 i 189 o achosion.

Credydwy'r

- 39 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn darparu ffordd effeithiol o wirio am daliadau dyblyg a bod taliadau wedi cael eu gwneud i gredydwy'r priodol. Mae hefyd yn paru data taliadau credydwy'r â data cyflogresi a Thŷ'r Cwmnïau i helpu i adnabod buddiannau mewn cyflenwyr sydd heb gael eu datgan gan staff.
- 40 Adroddodd saith corff ar gyfanswm o 42 o daliadau dyblyg i gredydwy'r. Roedd mwy o achosion (54) wedi'u cynnwys yn neilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. Fodd bynnag, fe gynyddodd gwerth deilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 i £0.28 miliwn, i fyny o £0.1 miliwn ym Menter Twyll Genedlaethol 2020-21.
- 41 Serch hynny, o gyfanswm y deilliannau ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23, roedd dau achos yn gyfrifol am werth o £0.16 miliwn, bron 60%. Ac roedd £0.06 miliwn (20%) o gyfanswm y deilliannau'n bariadau a adnabuwyd ym Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 ond lle cwblhawyd adolygiadau yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2022-23.

Datblygiadau yn y dyfodol

- 42 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn 2024-25 bellach ar y gweill. Mae cyfranogwyr y Fenter Twyll Genedlaethol yn dechrau cyflwyno data i'w baru, a bydd adroddiadau paru ar gael tuag at ddiwedd 2024.
- 43 Mae llwyddiant y Fenter Twyll Genedlaethol yn dibynnu ar ba mor effeithiol y mae cyrff sy'n cyfranogi'n asesu ac yn adolygu pariadau data, ac yna'n cofnodi'r deilliannau. Nid yw pariad data'n golygu o anghenraid bod twyll, gwall neu ordaliad wedi digwydd. Ni ddisgwylir i gyfranogwyr edrych ar bob pariad data. Mae cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol yn galluogi cyfranogwyr i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg a blaenoriaethu pa rai i edrych arnynt ac ym mha drefn.
- 44 Yn ogystal ag adnabod, adfer ac atal colled ariannol, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn dwyn manteision ansoddol ehangach. Gall ddarparu sicrwydd ynghylch, ac adnabod cyfleoedd i wella, effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau ariannol a gweinyddol eraill.
- 45 Mae ein hadolygiad o adroddiadau paru data'n adnabod anghysonderau o ran sut y caiff pariadau eu hasesu, eu hadolygu, a sut yr adroddir ar y deilliannau. Mae'n amlygu rhai amrywiadau mawr mewn canlyniadau rhwng cyfranogwyr o fath tebyg ac mae hefyd yn awgrymu bod rhai cyfranogwyr wedi methu â dyrannu adnoddau digonol i adolygu pariadau.
- 46 Yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, bydd staff Archwilio Cymru'n cynyddu eu hymgysylltiad â chyrff sy'n cyfranogi i godi ymwybyddiaeth a hybu cyfranogiad gweithredol. Mae arnom eisiau cynyddu ein dealltwriaeth am ffactorau sy'n dylanwadu ar y deilliannau yr adroddir arnynt gan gyrff unigol ac amrywiadau rhwng cyrff, gan gynnwys yn eu defnydd o offeryn Appcheck⁵ y Fenter Twyll Genedlaethol. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn diweddarau ein 'rhestr wirio hunanarfarnu' cyn rhyddhau pariadau data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn 2024-25.
- 47 Rydym hefyd yn parhau i geisio codi proffil, a gwneud gwaith pellach i ddatblygu cwnpas, y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru. Rydym yn falch y bydd Trafnidiaeth Cymru'n gyfranogwr newydd yn ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol, a fydd yn dod â data cardiau teithio rhatach yn ôl i mewn i'r ymarfer ac oddeutu 4,000 yn fwy o gofnodion cyflogaion.

5 Cynnyrch atal twyll a gwirio ceisiadau yw Appcheck. Trwy wirio a dilysu unigolyn yn erbyn yr wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol, gall Appcheck helpu i leihau hawliadau twyllodrus neu wallus am fudd-daliadau neu wasanaethau.

- 48 Yn y cyfamser, mewn ymarferion cynharach, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi paru data cartrefi gofal preswyl â phobl ymadawedig i adnabod achosion lle mae preswlydd mewn cartref gofal wedi marw, ond bod yr awdurdod lleol heb gael ei hysbysu ac wedi parhau i wneud taliadau i'r cartref gofal. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl paru'r data yma ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 a Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 oherwydd canlyniad anfwriadol newid i'r ddeddfwriaeth a oedd yn effeithio ar Gymru, yr Alban a Lloegr. Nid oes datrysiad deddfwriaethol wedi cael ei adnabod eto ond mae'n dal i fod yn bosibl y bydd y data yma'n cael ei baru'n ddiweddarach yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.
- 49 Yn olaf, rydym hefyd yn archwilio cyfleoedd eraill i adeiladu ar setiau data'r Fenter Twyll Genedlaethol gyda gweithgarwch ychwanegol i baru data neu ddadansoddi canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae un enghraifft fyw'n ymwneud â pheilot ar gofrestriadau cleifion meddygon teulu, gan weithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae paru data'n cael ei wneud i ganfod:
- unigolion ymadawedig ar gofrestr meddyg teulu; a hefyd
 - cleifion dyblyg mewn un gofrestr meddyg teulu neu ar draws nifer o gofrestrau meddygon teulu.
- 50 Byddwn yn adrodd ar ddeilliannau'r peilot pan fyddant wedi'u cadarnhau. Mae ein peilot cofrestriadau meddygon teulu'n dilyn ein peilot paru data fferylliaeth gymunedol yr adroddwyd arno ym mis Mai 2024. Er nad oedd yn gysylltiedig â setiau data'r Fenter Twyll Genedlaethol, mae'r ymarfer ar fferylliaeth gymunedol yn rhan o'n hymrwymiad ehangach i waith dadansoddeg twyll.



Atodiadau

1 Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru

1 Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru

Llywodraethu

Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) – rhan o Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Thrysorlys EF – yn goruchwyllo'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU. Archwilio Cymru sy'n arwain yr ymarfer yng Nghymru dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Cod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru'n crynhoi'r ddeddfwriaeth, a rheolaethau, allweddol, ar gyfer yr ymarfer yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mandadu bod awdurdodau lleol unedol, cyrff y GIG, heddluoedd ac awdurdodau tân ac achub yn cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru, rhai o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd, ac Archwilio Cymru gyfranogi'n wirfoddol ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23.

Mae gwybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cylch y Fenter Twyll Genedlaethol

O fis Hydref 2022

Cyflwynodd cyrff a oedd yn cyfranogi ddata penodedig ar gyfer
Menter Twyll Genedlaethol 2022-23¹



Fe wnaeth y Fenter Twyll Genedlaethol baru data o fewn a rhwng
cyrff i adnabod anghysonderau a elwir yn 'bariadau data'



Ionawr 2023

Adroddwyd wrth gyfranogwyr ar bariadau data



Ionawr 2023 – Mawrth 2024

Fe wnaeth cyfranogwyr asesu ac adolygu pariadau data, a
chofnodi deilliannau



31 Mawrth 2024

Mae deilliannau yr adroddwyd arnynt ar y dyddiad hwn yn goleuo
dadansoddiad Archwilio Cymru



Hydref 2024

Archwilio Cymru'n adrodd ar Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23
Cyrff sy'n cyfranogi'n cyflwyno data penodedig ar gyfer Menter
Twyll Genedlaethol 2024-25

Nodyn:

- 1 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno data'r dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol yn flynyddol, rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, ar gyfer paru data disgownt person sengl.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.